# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mawrth 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Owen Owens** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679169** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Trosglwyddo Balansau ysgolion sy'n Cau – newid geiriad Cynllun Ariannu Ysgolion** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Newid geiriad cymal 4.8 o Gynllun Ariannu ysgolion i ddarllen fel a ganlyn:

***4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***

*Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, heblaw i ysgol a sefydlwyd fel canlyniad i'r cau hwnnw. Mewn sefyllfa o'r fath trosglwyddir y gweddill i'r ysgol newydd o dan ddarpariaethau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.*

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Ar hyn o bryd mae cymal 4.8 o'r ddogfen Cynllun Ariannu Ysgolion yn nodi:

***4.8 Gweddillion cau ysgolion ac amnewid ysgolion***
*Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r Awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, hyd yn oed lle bo'r ysgol yn olynydd i'r ysgol sy'n cau.*

2.2 Fel mae cymal 4.8 wedi'i ysgrifennu ar hyn o bryd, mae balansau pob ysgol sy'n cau (boed y rheiny'n falansau sy'n warged neu'n ddiffyg) yn trosglwyddo yn awtomatig i'r Awdurdod.

2.3 Gwelir nad ydy'r sefyllfa hon yn creu unrhyw gymhelliant i ysgolion sy'n cau fod yn gyfrifol gyda'u cyllidebau gan nad oes dim, yn lleol, i'w ennill na'i golli o wneud hynny.

2.4 Fodd bynnag, mae Atodlen 3 o Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn caniatáu amrywio symiau sy'n daladwy i ysgol sydd yn cael ei sefydlu yn sgìl cau un neu ragor o ysgolion i adlewyrchu i ba raddau y mae ysgol sydd wedi'i chau wedi gwario mwy na'i chyfran o'r gyllideb neu nad yw wedi gwario'r cyfan ohoni mewn unrhyw gyfnod cyllido, *h.y. gellir trosglwyddo balansau ysgol sydd yn cau i'r ysgol sydd yn cael eu sefydlu yn ei lle.*

2.5 Gwelir y byddai newid y geiriad yn unol â'r penderfyniad a geisir yn creu cyd-destun cyllidol cadarnach pan fyddai unrhyw ysgol yn cau ac yn caniatáu a hyrwyddo cynllunio cyllidol cyfrifol a gofalus mewn sefyllfaoedd o'r math.

## 3 CYFLWYNIAD, RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Cododd y mater o falansau ysgolion sy'n cau wrth i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion drafod balansau ysgolion yn ei chyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd, 2016.

3.2 Ymgynghorwyd efo ysgolion ynglŷn â newid geiriad cymal 4.8 o'r Cynllun Ariannu Ysgolion (gweler Atodiad 1).

3.3 Yn y llythyr ymgynghori, nodwyd yr ystyriaethau canlynol o blaid newid y geiriad:

- Byddai unrhyw arian sydd mewn ysgolion sydd yn cau yn dilyn y disgyblion i'r ysgol newydd.

- O dan y trefniadau presennol fe all bod temtasiwn i ysgolion sydd yn cau gwario'r balansau sydd ganddynt er mwyn sicrhau na fyddai'r arian yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Gellir rhagweld y byddai ysgolion sy'n cau yn gwario ar adnoddau (fyddai'n trosglwyddo i'r ysgol newydd) ond nad oedd gwir angen yr adnoddau rheiny ar yr ysgol newydd. Byddai'n llawer gwell bod yr arian yn trosglwyddo i'r ysgol newydd fyddai'n caniatáu i'r ysgol newydd gynllunio defnydd priodol o'r arian yn unol â gofynion y Cynllun Datblygu Ysgol.

- Ni fyddai unrhyw balansau diffygiol yn trosglwyddo i'r Awdurdod. Fel mae'r Cynllun Ariannu Ysgolion wedi'i eirio ar hyn o bryd, does dim cymhelliant i ysgol sydd yn cau i fyw o fewn ei chyllideb. Byddai newid y geiriad yn hyrwyddo cynllunio ariannol cyfrifol mewn ysgolion gan y rhagwelir na fyddai ysgol sy'n gwybod ei bod yn mynd i gau yn dymuno rhoi unrhyw faich ariannol ychwanegol ar yr ysgol newydd fyddai'n cael ei sefydlu.

3.4 Adroddwyd ar ganlyniadau'r ymgynghoriad yng nghyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 7 Chwefror, 2017 (gweler Atodiad 2), gan nodi bod mwyafrif llethol yr ysgolion oedd wedi ymateb i'r

ymgynghoriad (26 allan o 27) o blaid newid geiriad cymal 4.8 o’r Cynllun Ariannu Ysgolion.

3.5 Penderfynodd y Fforwm Cyllideb Ysgolion argymell i’r Cabinet newid geiriad cymal 4.8 o’r Cynllun Ariannu Ysgolion.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1 Bydd geiriad cymal 4.8 o’r Cynllun Ariannu Ysgolion yn cael ei newid yn unol â’r penderfyniad a geisir, a daw’n weithredol ar 1 Ebrill, 2017.

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 5.1 Barn y Swyddogion Statudol

5.1.1 Y Prif Weithredwr

“Dim i’w ychwanegu i’r argymhelliad synhwyrol hwn.”

5.1.2 Y Pennaeth Cyllid

“Mae’r penderfyniad a geisir yn synhwyrol a rhesymegol, cefnogaf yr addasiad i’r Cynllun Ariannu Ysgolion yn weithredol o’r 1af Ebrill 2017.”

5.1.3 Y Swyddog Monitro

“Mae’r adroddiad yma wedi bod yn destyn mewnbwn gan y Gwasnaeth Cyfreithiol ac mae’r argymhelliad yn gydnaws a’r ddarpariaeth statudol.”

### 5.2 Barn yr Aelod Lleol

5.2.1 Dim yn fater lleol

### 5.3 Canlyniadau unrhyw ymgynghoriad

5.3.1 Gweler Atodiad 2